CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 HYDREF 2018

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng E R Hughes

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, W L Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, C Larsen, S Sage, R Thomas, D L Jones

1. Ymddiheuriadau

W R Owen, J W Parry, B Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

8.8.2018	Noson Cawl a Gwin
12.8.2018	Gem gyntaf Clwb Peldroed Caernarfon
31.8.2018	Bore Coffi / Coffee Morning BHF Dirprwy Faer Cyng. Tudor Owen yn mynychu ar ran y Maer
8.9.2018	Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol ym Mangor/ Cyng. Tudor Owen yn mynychu ar ran y Maer
21.9.2018	Galeri – agoriad y Cinema newydd
22.9.2018	Cyflwyno tystysgrif i anrhydeddu Wyn Davies
23.9.2018	Gŵyl Swigod y Byd - Galeri
30.9.2018	Rali Ceir trefi Caerog

3. Datgan Buddiant Personol

Cyng K Jones – eitem 13
Cyng W T Owen – pwyllgor adloniant eitem 7 a cyngor rhif 8

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Llythyr parthed y siop

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 4 Medi 2018
ii. Cofnodion Pwyllgor Safle Treftadaeth 20 Awst 2018
iii. Pwyllgor Adloniant 25 Medi 2018

Penderfynwyd

i. derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii. Derbyn au mabwysiadu (unfrydol)
iii. Derbyn au mabwysiadu (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Llythyr gan Ynddiriedolaeth yr Harbwr

Parthed Ymddiriedolwyr

Penderfynwyd

Er mwyn cadw sefydlogrwydd yn ystod cyfnod o ddatblygu , ethol Cyng I C Thomas (unfrydol)

9. **Cyngor Gwynedd**

Parthed Biniau Halen

Penderfynwyd

Talu cyngor gwynedd i'w llenwi a gofyn os oes modd roi sticer arnynt i hysbysebu bod pobl yn ein ffonio ni a dim Cyngor Gwynedd pan bod angen eu ail llenwi (unfrydol)

10. **E-bost One com**

Parthed costau lleihau ffon

Penderfynwyd

Chwilio am 2 bris arall (unfrydol)

11. **Unllais**

i) Arolwg 2018 Etholiadau Seneddol yng Nghymru
ii) Dyddiadau hyfforddiant

Penderfynwyd

i) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)
ii) Enwau i'r clerc ar gyfer sesiynau hyfforddiant (unfrydol)

12. **Cyngor Gwynedd**

Pa wasanaethau sy'n bwysig ichi

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

13. Lleng Brydeinig - Apêl 'Pabi'

Dileu trafodaeth tan ar ôl yr eitem brys

Penderfynwyd

Yn dilyn y ffaith bod tenant a diddordeb yn y siop caniatáu os ydi'r llogi tymor hir yn disgyn trwodd (unfrydol) (oedd Cyng K Jones allan o'r ystafell)

14. **Archwiliad**

Eglurodd y clerc bod yr un peth bellach wedi ei sortio ond oherwydd amserlen y cyngor yn amhosib gwneud o fewn y flwyddyn archwiliad diwethaf

Penderfynwyd

Pwyllgor cyllid i edrych ar y manylion bychain wrth baratoi'r amcangyfrifon i arbed sylwadau yr archwilydd

15. Cwestiynau

Pryd mae'r boiler yn cael ei drwsio ? wythnos nesaf
Oes modd anfon llythyr i Ed Bailey iw longyfarch ar ei benodiad fel Cwnstabl y Castell ? Oes

16. Llythyr parthed y siop
Llythyr gan busnes cyfagos yn cynnig £500 y mis am llogi ein siop
Penderfynwyd
Bod y swm rhy isel a bod ni eisoes wedi dod lawr o £800 i £650 ac felly yn disgwyl cael £650 neu isafswm o £600. Os yn cytunno a hyn bod y les angen bod am 5 mlynedd ac yna amod bod y ffenenstr yn edrych yn ddeiniadol i'r stryd . Clerc a'r hawl i weithredu ar y mater gan bod yn fater brys (12 o blaid , 1 ymatal)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.00

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....